# Y Pwyllgor Cyllid

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 10 Rhagfyr 2014** |
| Amser: | **09.00 – 11.30** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/2516) yn:
**http://senedd.tv/cy/2516**

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Jocelyn Davies AC (Cadeirydd)**<br>**Peter Black AC**<br>**Christine Chapman AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Alun Ffred Jones AC**<br>**Julie Morgan AC**<br>**Mohammad Asghar (Oscar) AC** |
| Tystion: | **Jane Hutt AC, Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth**<br>**Andrew Jeffreys, Dirprwy Gyfarwyddwr, Buddsoddi Cyfalaf Strategol, Llywodraeth Cymru**<br>**Matt Denham Jones, Llywodraeth Cymru**<br>**Jeff Andrews, Cynghorydd Polisi Arbenigol, Llywodraeth Cymru**<br>**Nicola Evans, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Isobel Garner, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Kevin Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol, Swyddfa Archwilio Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Bethan Davies (Clerc)**<br>**Meriel Singleton (Ail Clerc)**<br>**Leanne Hatcher (Dirprwy Glerc)** |

Richard Bettley (Ymchwilydd)
Martin Jennings (Ymchwilydd)
Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)

---

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Ann Jones a Nick Ramsey.

1.3 Croesawodd y Cadeirydd Mohammad Asghar a oedd yn dirprwyo ar ran Nick Ramsey.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 3 Yr Arfer Gorau mewn Prosesau Cyllidebol: Sesiwn dystiolaeth 5

3.1 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar waith y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth yng nghyswllt yr arfer gorau mewn prosesau cyllidebol.

3.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu gwybodaeth am sut y mae'n ymgysylltu ag arbenigwyr academaidd ac yn eu defnyddio i gynhyrchu data economaidd.

## 4 Swyddfa Archwilio Cymru: Adroddiad ar y fflyd

4.1 Craffodd y Pwyllgor ar waith Swyddfa Archwilio Cymru ar ei Adroddiad ar y fflyd.

4.2 Cytunodd Swyddfa Archwilio Cymru i ddarparu gwybodaeth am ei dulliau ar gyfer sicrhau bod y cynllun yn cydbwyso'r angen am leihau costau, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol ac effaith amgylcheddol.

## 5 Swyddfa Archwilio Cymru: Ystyried y Cynllun Ffioedd

5.1 Craffodd y Pwyllgor ar waith Swyddfa Archwilio Cymru ar ei gynllun ffioedd ar gyfer 2015.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Swyddfa Archwilio Cymru: Caffael archwilwyr

7.1 Craffodd y Pwyllgor ar waith Swyddfa Archwilio Cymru ar Gaffael Archwilwyr.

## 8 Swyddfa Archwilio Cymru: Adroddiad ar y fflyd - Ystyried y dystiolaeth

8.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 9 Swyddfa Archwilio Cymru: Ystyried y Cynllun Ffioedd - Ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law

9.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 10 Yr Arfer Gorau mewn Prosesau Cyllidebol: Ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law

10.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.